OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 3462

# Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007

## RHAN 2

TALIADAU RHEOLAETHAU SWYDDOGOL AC EITHRIO TALIADAU AM FEWNFORION TRYDYDD GWLEDYDD

**Tâl o ran sefydliadau prosesu**

**12.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i berchennog neu weithredydd sefydliad prosesu dalu'r tâl y cyfeirir ato ym mharagraff (2) ("y tâl sefydliad prosesu") i'r awdurdod bwyd perthnasol.

(2) Cyfraniad o 0.5 Ewro y dunnell o gynhyrchion pysgodfeydd sy'n dod i sefydliad at ddiben prosesu fydd y tâl sefydliad prosesu a hwnnw'n gyfraniad at y costau a dynnir gan yr awdurdod bwyd perthnasol pan fydd yn arfer y rheolaethau swyddogol sy'n ofynnol o dan Atodiad III i Reoliad 854/2004.

(3) Pan fo gwir gostau arfer y rheolaethau swyddogol sy'n ofynnol o dan Atodiad III i Reoliad 854/2004 yn llai na'r tâl sefydliad prosesu, rhaid i'r perchennog neu'r gweithredydd dalu swm sy'n hafal i'r costau hynny i'r awdurdod bwyd perthnasol, yn lle'r tâl sefydliad prosesu.